

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR
2023/24**



GOVERNORS' ANNUAL REPORT 2023/24

**YSGOL GYMRAEG PONTYBRENIN
HEOL CASLLWCHWR
GORSEINON
ABERTAWE
SA4 6AU**

**Ffôn/Tel: 01792 894210
yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
www.yggpontybrenin.com**



Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Rieni sy'n amlinellu gwaith, gweithgareddau a chyflawniadau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2023/24.

Er mai cyfrifoldeb y Pennaeth, Mr Ceri Scourfield, a'r Tîm Arwain yw rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd, ni fel corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gefnogi, herio a chraffu ar berfformiad yr ysgol. Ynghyd â'r ysgol a'r gymuned ehangach, rydym yn ymdrechu'n gyson tuag at y nod cyffredin o ddarparu'r profiadau a'r cyfleoedd addysgol gorau i'n disgyblion, mewn amgylchedd gofalgar, meithringar a chefnogol.

Hoffwn ddiolch i'r staff addysgu a chynorthwyyol, staff arlwy, glanhawyr, gwirfoddolwyr, rhieni ac aelodau Ffrindiau YGG Pontybrenin sydd i gyd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu hymrwymiad a'u hymdrechion wedi bod yn arbennig eleni eto ac maent wedi mynd y filltir ychwanegol er budd ein disgyblion.

Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau ein Corff Llywodraethu sydd wedi parhau i ymrwymo i'w rôl ac sydd wedi dangos eu cefnogaeth i'r Tîm Arwain a'r holl staff drwy gydol y flwyddyn.

Carwn ddiolch i gymuned yr ysgol gyfan am ymgysylltu â'r ysgol a pharhau i gefnogi newidiadau cyffrous Cwricwlwm i Gymru. Bydd y diwygiadau hyn a'r cwricwlwm newydd yn caniatáu i'n plant ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, cyfarnwyr mentrus a chreadigol, unigolion iach ac hyderus a dinasyddion egwyddorol a gwybodus. Fel bob amser, mae staff yr ysgol wedi bod yn wych yn eu hymrwymiad a'u hymroddiad i sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn cael addysg o'r safon orau.

O bryd i'w gilydd mae gwagleoedd yn codi ar y Corff Llywodraethu ac os ydych yn teimlo bod gennych yr amser a'r egni i ymrwymo i helpu ein hysgol fel llywodraethwr, yna cysylltwch â'r Pennaeth, Mr Ceri Scourfield, yn y man cyntaf.

*Nid yw hi'n ofynnol bellach i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Serch hynny, gall y corff llywodraethu barhau i gynnal cyfarfodydd i rieni pryd bynnag y byddwn o'r farn bod angen trafod mater sy'n effeithio ar yr ysgol. Yn yr un modd, fe'ch atgoffir fod gan rieni'r hawl i ofyn i'r corff llywodraethu gwrdd â hwy i drafod materion o bwys. Gall rieni arfer yr hawl hon hyd at deirgwaith mewn unrhyw flwyddyn ysgol, ar yr amod mai trafod materion o bwys i'r ysgol yw diben y cyfarfodydd hyn, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion yn erbyn aelod o'r staff neu'r corff llywodraethu.

Mae adran 94 o Ddeddf Safonau a threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn pennu bod rhaid i leiafrif gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol lofnodi deiseb er mwyn gofyn am gyfarfod. Y lleiafrif gofynnol yn ein hysgol ni yw rhieni 30 o'r disgyblion cofrestredig.

Ni chynhaliwyd cyfarfod i drafod adroddiad blynyddol 2022/23.

Yn ddiffuant,

*Y Cyng Dr Robert Smith
Cadeirydd y Llywodraethwyr*



Dear Parents / Carers,

It is my pleasure to present the Annual Report to Parents which outlines the work, activities and achievements of the school for the academic year 2023/24.

Whilst the day to day management of the school is the responsibility of the Headteacher, Mr Ceri Scourfield, and the Leadership Team, we as a governing body are responsible for supporting, challenging and scrutinising the school's performance. Together with the school and the wider community, we constantly strive towards the shared goal of providing the best educational experiences and opportunities for our pupils, in a caring, nurturing and supportive environment.

I would like to thank the teaching and support staff, catering staff, cleaners, volunteers, parents and the Friends of YGG Pontybrenin who have all worked tirelessly during the past year. Their commitment and fortitude has been exemplary as always and they have really gone the extra mile for the benefit of our pupils.

I would also like to thank the members of our Governing body who have remained committed to their role and have shown their support for the Leadership Team and all staff throughout the year.

My thanks also to the entire school community for engaging with, and supporting the school with the continued implementation and exciting changes to Curriculum for Wales. These reforms and the new curriculum will allow our children to develop the skills they need to become ambitious and capable learners, enterprising and creative contributors, healthy and confident individuals and ethically informed citizens. As always the school's staff have been magnificent in their commitment and dedication to ensuring that all our pupils are afforded the highest standard of education.

From time-to-time vacancies arise on the Governing Body and if you feel you have the time and energy to commit to helping our school as a governor then please contact the Headteacher, Mr Ceri Scourfield, in the first instance.

**There is no longer a requirement for governing bodies to hold annual parents' meetings. However, the governing body may continue to call parents' meetings whenever we believe that an issue which affects the school needs to be discussed. Similarly, we remind you that parents have the right to request a meeting with a governing body on issues which concern them. This parental right may be exercised up to 3 times in any school year, provided that the purpose of the meetings is to discuss issues which relate to the school, not individual pupil progress and achievement or grievances against a member of staff or the governing body. Section 94 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 determines that for all schools a required minimum number of parents of registered pupils at the school must sign a petition to request a meeting. The required number at our school is the parents of 30 registered pupils. No meeting was held to discuss the 2022/23 annual report.*

Yours faithfully,

Cllr Dr Robert Smith
Chair of Governors



CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHU 2023/24
COMPOSITION OF THE GOVERNING BODY 2023/24

Cadeirydd / Chairman Cyng / Cllr Dr Robert Smith

Is-gadeirydd / Vice-chairman Mr Huw Evans

<u>Cynrychiolwyr</u> <u>Representative</u>	<u>Enw</u> <u>Name</u>	<u>Diwedd Tymor</u> <u>End of Term</u>
AALI / LEA	Cyng / Cllr Dr Robert Smith Mr Huw Evans Mr Keith Collins Mr Alun Millington	02/08/2028 25/02/2028 29/03/2027 22/02/2027
Cymuned / Community	Cyng / Cllr Ireen James Mrs Helen Wright Mrs Jennifer Clarke Gwagle / Vacancy	09/11/2025 20/11/2027 20/11/2027
Rhieni / Parents	Mr Jonathan Williams Mrs Abi Hobson Mrs Grace Thomas Mrs Joy Jenkins Mr Tom Davies	13/05/2025 23/10/2024 13/03/2027 13/05/2025 19/11/2027
Athrawon / Teachers	Mr Gethin Horan Mrs Llinos Sartori	07/11/2027 07/11/2027
Staff	Mrs Emma Dodd	27/02/2028
Pennaeth / Headteacher	Mr Ceri Scourfield	

Clerc i'r Llywodraethwyr / Clerk to Governors

Mrs Rhian O'Brien, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach, Heol Roseland,
Waunarlwydd, Abertawe SA5 4ST

Penodir pob llywodraethwr am gyfnod o bedair blynedd.
Cynhelir etholiad ar gyfer rhieni llywodraethwyr pan ddaw tymor unigolion i ben.

*All governors are appointed for a period of four years.
An election is held when parent governors' term of office comes to an end.*



Dyddiadau'r tymor 2023/24 Term Dates 2023/24

Tymor / Term	Dechrau'r Tymor Term begins	Diwedd ½ Tymor ½ Term ends	Gwyliau hanner tymor Mid-term holiday		Dechrau'r ½ Tymor ½ Term begins	Diwedd Tymor Term ends
			Dechrau Begins	Gorffen Ends		
Hydref 2023 Autumn 2023	Dydd Llun, 1/9/23 Monday, 1/9/23	Dydd Gwener, 27/10/23 Friday, 27/10/23	Dydd Llun, 30/10/23 Monday, 30/10/23	D.Gwener, 3/11/23 Friday, 3/11/23	Dydd Llun, 6/11/23 Monday, 6/11/23	D.Mawrth, 22/12/23 Friday, 22/12/23
Gwanwyn 2024 Spring 2024	D.Llun, 8/1/24 Monday, 8/1/24	D.Gwener, 9/2/24 Friday, 9/2/24	Dydd Llun, 12/2/24 Monday, 12/2/24	D.Gwener, 16/2/24 Friday, 16/2/24	Dydd Llun, 19/2/24 Monday, 19/2/24	D Gwener, 22/3/24 Friday, 22/3/24
Haf 2024 Summer 2024	Dydd Llun, 8/4/24 Monday, 8/4/24	D.Gwener, 24/5/24 Friday, 24/5/24	Dydd Llun, 27/5/24 Monday, 27/5/24	D.Gwener, 31/5/24 Friday, 31/5/24	Dydd Llun, 3/6/24 Monday, 3/6/24	Dydd Gwener, 19/7/24 Monday, 19/7/24



STAFF YR YSGOL 2023-24 / SCHOOL STAFF 2023-24

Pennaeth / *Headteacher*

Mr Ceri Scourfield

Dirprwy / *Deputy*

Mr Gethin Horan

Athrawon / *Teachers*

Mrs Llinos Sartori	Bl. 6
Miss Nia Elsbeth Davies	Bl. 6
Miss Jasmine Collins	Bl. 5
Miss Ruby Walker	Bl. 5
Miss Sophie Dark	Bl. 4&5
Miss Kassie Gwenter	Bl. 4
Miss Menna Phillips	Bl. 4
Mr Dylan Scozzi	Bl. 3
Miss Nerys Seaman	Bl. 3
Mrs Julie Griffiths	Bl. 2
Miss Angharad Morgan	Bl. 2
Mrs Gail Bishop-Williams	Bl. 1&2
Mrs Rhian White	Bl. 1
Miss Amber Williams	Bl. 1
Miss Aimee McAndrew	Derbyn
Mrs Bethan Southgate	Derbyn
Miss Laura Williams	Derbyn
Mrs Ffion Owen }	Meithrin
Mrs Elsbeth Fewings }	
Miss Menna George	ADY / ALN
Mr Gethin Horan	CPA / PPA
Mrs Carys Dando	CPA / PPA
Mrs Eluned Ruddell	CPA / PPA
Mrs Delyth Williams	CPA / PPA
Mrs Rhinedd Rees	CPA / PPA
Miss Lauren Williams	CPA / PPA

Cynorthwyywyr Addysgu
Teaching Support Staff

Miss Nerys Higgins
Mrs Emma Evans
Mrs Sera Cairns
Miss Elizabeth Campbell
Miss Elen Robbins
Mrs Gillian Davies
Mrs Leanne Roberts
Miss Laura Rowden
Mrs Nia-Teleri Evans
Mr Rhydian Davies
Miss Rhiannon Harris
Miss Tiegan Dickeson
Mrs Sara Nabialek
Miss Ali Edwards



Miss Cari Richards
Miss Emma Butterworth
Mrs Kerriane Peters
Mrs Abigail Morgan

Swyddfa / Office

Mrs Hazel Davies –
Ysgrifenyddes / Secretary
Mrs Emma Dodd – Cynorthwy-ydd
Gweinyddol / Administrative Assistant

Gofalwr / Caretaker

Mr Mark Nicholls

Datganiad Gwariant Gwirioneddol – Blwyddyn Ariannol 2023/24 Statement of Actual Expenditure – Financial Year 2023/24

	Delegated Expenditure £	Non-Delegated Expenditure £	Total Net Expenditure £
Teachers Salaries	1,439,644	14,061	1,453,705
Salaries	522,446	43,719	566,165
Other Employee Costs	-462	-104	-567
Premises	87,743		87,743
Transport	1,441	140,938	142,379
Supplies & Services	299,332		299,332
Recharges	127,685		127,685
Gross Expenditure	2,477,829	198,614	2,676,442
<i>Grant Income</i>	-398,285		-398,285
<i>Other Income</i>	-118,145		-118,145
Gross Income	-516,430	0	-516,430
Net Expenditure	1,961,399	198,614	2,160,013
RESERVES:			
	£		
FINAL FORMULA ALLOCATION:	1,929,976		
TOTAL NET EXPENDITURE:	1,961,399		
TRANSFER TO / (FROM) RESERVES:	-31,423		
OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/23	208,213		
CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/24	176,790		



Nifer o Ddisgyblion / Number of Pupils

Roedd 573 o ddisgyblion ar y gofrestr – 275 yn yr Iau, 207 yn y Babanod a 91 yn y Meithrin (rhan amser).

Trosglwyddodd 62 disgybl i Ysgol Gyfun Gŵyr ar ddiwedd tymor yr haf.

There were 573 pupils on roll - 275 in the Juniors, 207 in the Infants and 91 in the Nursery (part time).

62 pupils transferred to Ysgol Gyfun Gŵyr at the end of the summer term.

Presenoldeb / Attendance

% presenoldeb o fis Medi 2023 i Orffennaf 2024

% attendance from September 2023 to July 2024

Presenoldeb <i>Attendance</i>	Absenoldeb gyda chaniatâd <i>Authorised absence</i>	Absenoldeb heb ganiatâd <i>Unauthorised absence</i>
93.3%	4.6%	2.5%

Y targed presenoldeb ar gyfer 2024-2025 yw 94%

The attendance target for 2024-25 is 94%

Prydau Ysgol / School Dinners

Pris prydau ysgol – £2.40 y diwrnod, £12.00 yr wythnos

Price of school dinners - £2.40 per day, £12.00 per week

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r ysgol hon yn ysgol benodedig Gymraeg. Y Gymraeg yw unig gyfrwng y dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym mlwyddyn 3 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer agweddau ar rai pynciau. Cymraeg yw iaith gweithgarwch yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw iaith cyfathrebu â'r disgyblion ac iaith gweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Welsh Language

This school is a designated Welsh school. Welsh is the only medium of teaching in the Foundation Phase. Welsh is the main teaching medium at Key Stage 2. English is introduced as a subject in Year 3 and is taught in English, and English is also used for aspects of some subjects. Welsh is the language of the school's daily activity.



Welsh is the language of communication with pupils and the school administration language. The school communicates with parents in both Welsh and English.

Cwricwlwm

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel lle mae cyfle i bob plentyn, beth bynnag fo'i allu gyrraedd ei lawn botensial. Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd a gosodir pwysigrwydd ar eu gwneud yn berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn. Mae'n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o'i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a'i fyd. Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg a'r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn. Y mae gan yr ysgol hefyd bolisi cydraddoldeb a hyrwyddir hawliau plant y Cenhedloedd Unedig.

Er caiff cwricwlwm yr ysgol ei ddiffinio gan ofynion Llywodraeth Cymru, caiff ei lunio gan aelodau cymuned ein hysgol ac mae'n unigryw i Ysgol Gymraeg Pontybrein. Rhoddir ystyriaeth gytbwys i ddatblygiad gwybodaeth, sgiliau, cysyniadau ac agweddau, ac mae pwyslais cryf ar brofiadau uniongyrchol.

Diben ein cwricwlwm yw cynorthwyo ein disgyblion i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas;
- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas;

Mae'r Cwricwlwm yn cynnwys 6 Maes Dysgu a Phrofiad, sef Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles, Y Dyniaethau a'r Celfyddydau Mynegiannol.

Tanategir pob Maes Dysgu a Phrofiad gan y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, sydd yn orfodol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau. Tra'n rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau, sy'n cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau cymdeithasol ac astudiaethau busnes, mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin tra bod ganddynt eu corff eu hunain o wybodaeth a sgiliau.



Curriculum

Our aim is to offer the highest quality care and education in a happy, kind, active and safe environment where there is an opportunity for all children, whatever their ability, to reach their full potential. Emphasis is placed on learning the basic skills of literacy and numeracy and we place an importance on making them relevant and meaningful to the child. It is important to make the child aware of his/her environment, their community, country and the world. An enriched curriculum is provided which ensures that all children grow up to be aware of Welsh culture and the heritage associated with this. The school also has an equality policy and promotes the UN children's rights.

Whilst the school's curriculum is designed by the demands of the Welsh Government, it has been created in collaboration with members of our school community and is bespoke to Ysgol Gymraeg Pontybrenin. Equal attention is given to the development of knowledge, skills, concepts and attitudes and considerable emphasis is placed on first-hand experiences.

The purpose of our curriculum is to support our pupils to be:

- Ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives;*
- Enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work;*
- Ethical, informed citizens of Wales and the world;*
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

The Curriculum consists of 6 Areas of Learning & Experience, which are Languages, Literacy & Communication, Mathematics & Numeracy, Science & Technology, Health & Wellbeing, Humanities and Expressive Arts.

All Areas of Learning & Experience are underpinned by the mandatory Literacy, Numeracy and Digital Competence Frameworks.

Religion, Values and Ethics (RVE) is also a mandatory element of the Curriculum for Wales and part of the Humanities Area of Learning & Experience. Whilst part of the Humanities Area of Learning & Experience, encompassing geography; history; religion, values and ethics; social studies and business studies, these disciplines share many common themes, concepts and transferable skills whilst having their own discrete body of knowledge and skills.

Cynllun Datblygu'r Ysgol

Mae gan yr ysgol Gynllun Datblygu Ysgol sy'n llywio datblygiad yr ysgol o flwyddyn i flwyddyn. Mae hi'n ddogfen fyw sy'n mynd i'r afael a blaenoriaethau sy'n deillio o'n gweithdrefnau hunan arfarnu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ynghyd â dadansoddiad o ddata. Mae'r corff llywodraethu yn monitro'r cynllun gan werthuso'r targedau a osodir.



Prif flaenoriaethau llynedd (2023/24)

1. Cymraeg – Llafar. Codi safonau ar draws pob agwedd o'r cwricwlwm trwy wella medrau llafar Cymraeg disgyblion.
Ennyn angerdd am yr iaith Gymraeg ym mhob disgybl fel eu bod nhw'n dewis siarad yr iaith o'u gwirfodd.
2. Mathemateg & Rhifedd. I sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleoedd i gymhwyso eu sgiliau rhifedd a datblygu eu sgiliau rhesymu trwy ystod o weithgareddau ymarferol sydd yn ennyn brwdfrydedd ac sy'n annog ymholiadau pellach.
3. Asesu. Dyfnhau dealltwriaeth staff o ddisgwyliadau asesu Cwricwlwm i Gymru er mwyn dod i ddeall yr egwyddorion cynnydd, gyda'r nod o symud y dysgu yn ei flaen, yn enwedig ymysg disgyblion sydd dan anfantais.
4. Datblygiad Proffesiynol Staff. I gynllunio a chreu rhaglen gynhwysfawr sydd yn sicrhau bod athrawon a chynorthwyr yn profi datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel sydd yn ymateb i'w anghenion nhw ac anghenion yr ysgol.
5. Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. I greu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio er mwyn datblygu'r addysgegau ac ymarferion sydd eu hangen i gwrdd â gofynion pob disgybl.

Prif flaenoriaethau eleni (2024/25)

1. Cymraeg – Llafaredd ar gyfer dysgu. Sicrhau dysgu iaith cyfoethogi drwy addysgu sgiliau llafaredd a geirfa sy'n benodol i bynciau, tra'n sicrhau bod cynllunio yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio siarad i ddatblygu dysgu pellach.
2. Mathemateg a Rhifedd – sgiliau sylfaenol. Adolygu ac addasu ein cwricwlwm er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cynhenid i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau mathemateg a rhifedd sylfaenol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
3. Asesu – dal y dysgu. Datblygu rhaglen gynhwysfawr a theilwredig o asesiadau i ddal y dysgu ac adnabod cynnydd dysgwyr unigol.
4. Arweinyddiaeth. Datblygu system gynhwysfawr o arweinyddiaeth dosranedig er mwyn adeiladu capasiti a recriwtio, datblygu a chadw arweinwyr.

The School Development Plan

The school development plan is a living document that addresses priorities arising from our self-evaluation procedures. Consideration is also given to local and national priorities as well as data analysis. The governing body monitors the plan by evaluating the targets set.

Last year's Key Priorities (2023/24)

1. *Welsh – Oracy. Raise standards across all areas of the curriculum by improving pupils' Welsh Oracy skills. Imbue a passion for the Welsh language in all pupils, so that they choose to speak the language of their own accord.*
2. *Maths & Numeracy. To ensure pupils receive opportunities to apply their numeracy skills and develop their reasoning skills through a range of practical activities that elicit enthusiasm and encourage further enquiry.*
3. *Assessment. Deepen the staff's knowledge of the assessment expectations within Curriculum for Wales in order to understand the principles of progression, with the aim of moving the learning forward, particularly amongst disadvantaged pupils.*



4. *Staff Professional Development. To design and establish a comprehensive programme that ensures both teaching and support staff experience high-quality professional development which responds to their own needs and those of the school.*
5. *Schools as Learning Organisations. To establishing a culture of enquiry, innovation and exploration in order to develop the pedagogies and practices required to meet the needs of all pupils*

This year's Key Priorities (2024/25)

1. *Welsh – oracy for learning. Ensure language enriched learning through the explicit teaching of oracy skills and subject specific vocabulary, whilst ensuring that planning includes opportunities to use talk to develop further learning.*
2. *Maths & Numeracy – basic skills. Review and adapt our curriculum to ensure that there are intrinsic opportunities for pupils to develop their basic maths and numeracy skills across the areas of learning and experience.*
3. *Assessment – capturing the learning. Develop a comprehensive and customised programme of assessments to identify and capture individual learner progress.*
4. *Leadership. Develop a robust system of distributed leadership in order to build capacity and recruit, develop and retain leaders*

Asesu – cadw cofnodion ac adrodd

Mae asesu'n ganolog i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Ein nod yw sefydlu asesu fel ffordd effeithiol ac ymarferol o sicrhau a chofnodi cynnydd yn ein cwricwlwm.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi;

1. Asesu disgyblion yn erbyn y profion rhifedd a darllen cenedlaethol a defnyddio'r canlyniadau i arwain y broses cynllunio ac ymateb i anghenion disgyblion unigol.
2. Defnyddio Asesu ar gyfer Dysgu ar draws yr ysgol i hyrwyddo datblygiad a dealltwriaeth disgyblion o'u dysgu a sut i wella hynny.
3. Cydweithio gyda disgyblion er mwyn pennu targedau unigol i bob plentyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod adroddiadau ysgrifenedig i rieni'n cynnwys sylwadau cyrhaeddiad ym mhob pwnc o'r cwricwlwm, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd, yn ogystal â sylwadau ar ymdrech ac agwedd. Adroddir ar ganlyniadau'r profion cenedlaethol a chynhelir dwy noson i rieni yn ystod y flwyddyn i roi cyfle iddynt siarad ag athro/athrawes ddosbarth eu plentyn, trafod gwaith eu plentyn a siarad â'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cynigiwyd trydydd noson rieni i rieni yn nhymor yr haf er mwyn trafod cynnwys adroddiadau diwedd y flwyddyn.

Assessment – record keeping and reporting

Assessment is central to the effective implementation of the curriculum. Our aim is for assessment to be an effective and practical way of ensuring and recording progress in our curriculum.



During the year we have

- 1. Assessed pupils against the National Numeracy and Reading tests and have used the results to inform the planning process and meet the needs of individual pupils.*
- 2. Used Assessment for Learning across the school as a means of developing pupils' understanding of their learning and how to improve this further.*
- 3. Collaborated with pupils in order to set individual targets for each child.*

Efforts are made to ensure that written reports to parents contain comments of achievement in all curriculum subjects, as well as literacy and numeracy, and include comments on efforts and attitude. Reports were shared on the national test results and two parents evenings were held during the year to give parents the opportunity to speak to their child's class teacher, discuss their child's work and speak to the Additional Learning Needs Co-ordinator. A third parents evening was also offered to parents during the Summer term in order to discuss the contents of the end of year reports.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Diweddarir y polisi ADY yn unol â gofynion statudol. Darperir Cynlluniau Addysg Unigol neu Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Unigol. Apwyntir Llywodraethwr i gydweithio'n agos â'r ysgol ar faterion ADY.

Cydlunydd ADY – Menna George (Medi - Ebrill) & Leanne Brinn-Phillips (Ebrill - Gorffennaf)

Llywodraethwr a chyfrifoldeb ADY – Jonathan Williams

Additional Learning Needs

The school policy is reviewed according to statutory requirements. Individual Educational Plans or Individual Development Plans are provided for those pupils with Additional Learning Needs. A member of the Governing body is appointed to work closely with the school on ALN matters.

ALN Co-ordinator – Menna George (September - April) & Leanne Brinn-Phillips (April - July)

Governor with ALN responsibility – Jonathan Williams

Cysylltiadau Cymunedol

Mae'r berthynas gref rhwng yr ysgol a'r gymuned yn parhau i ffynnu. Mae'r plant yn ymweld â mannau o ddiddordeb ac yn cwrdd â phobl leol yn rheolaidd ac mae'r gymuned yn dangos ei chefnogaeth i'r ysgol mewn sawl ffordd wahanol.

Trefnir ymweliadau addysgol gan yr athrawon i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r Heddlu, Swyddogion Diogelwch Ffyrdd, Tîm Diogelwch Tân, Nyrs yr ysgol a nifer o arweinwyr Cristnogol yn y gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r ysgol wedi cefnogi amrywiaeth o elusennau yn ystod y flwyddyn ac wedi codi symiau sylweddol o arian i Morgan's Army, Comic Relief a Phlant mewn Angen i enwi ond rhai.



Mae'r ysgol yn parhau i gael perthynas waith agos â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae hyn yn golygu bod nifer o ddarpar athrawon yn dod i'r ysgol sydd o fudd i'r ysgol a'r brifysgol.

Mae busnesau lleol hefyd yn parhau i gefnogi mentrau a phrosiectau'r ysgol yn hael.

Mae 'Ffrindiau Ysgol Gymraeg Pontybrenin' yn parhau yn hynod weithgar ac mae ein dyled yn fawr iddynt.

Community Links

The strong relationship between the school and the wider community continues to grow. The children visit places of interest and meet people in the locality on a regular basis and the community shows its support of the school in many different ways.

Educational visits are organised by the teachers to support the curriculum. The Police, Road Safety Officers, Fire Safety Team, School Nurse and numerous Christian leaders within the community visit the school on a regular basis.

The school supported various charities during the year and raised considerable sums of money for Morgan's Army, Comic Relief and Children in Need to name but a few.

The school continues to have a close working relationship with the University of Wales Trinity St David. This means that the school has a regular intake of prospective teachers which benefits both the school and the university.

Local businesses also continue to generously support the school with our numerous initiatives and projects.

The 'Friends of Ysgol Gymraeg Pontybrenin' continued to work tirelessly and we are greatly indebted to them

Yr ysgol a rhieni

Mae croeso bob amser i rieni ddod i'r ysgol, a gobeithio bydd y cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn parhau ac yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Chwiliwn am farn rhieni ar bob achlysur ac yn ogystal ag holiaduron tymhorol, mae'r fforymau rhieni tymhorol hefyd yn gyfrwng effeithiol iawn yn atgyfnerthu'r bartneriaeth hon.

Caiff rhieni wybod am newyddion a digwyddiadau'r ysgol drwy e-bost neu neges destun yn bennaf, gyda llythyron yn cael eu hanfon yn achlysurol, yn enwedig pan fydd angen ymateb neu ganiatâd. Mae gwefan yr ysgol yn cael ei diweddu'n rheolaidd ac mae'n ffynhonnell dda o newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol ac yn y dosbarthiadau.

The school and parents

Parents are always welcome in the school and it is hoped that the strong links between the home and school will be maintained and developed during the forthcoming year. Parents' views are actively sought and welcomed, and in addition to termly questionnaires, termly parent forums are held which also strengthen this partnership further.

Parents are informed of school news and events predominantly by e-mail or text, with letters occasionally being needed, particularly when a response or permission is required. The school's website is updated on a regular basis and is always a



good source of news and features as to what is going on at the school and in classrooms.

Toileddau / Ystafelloedd ymolchi

Mae cyfleusterau toiled yn cael eu darparu ar draws yr ysgol, gan gynnwys y tri adeilad dros dro. Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sy'n cael eu cynnal yn dda, lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel a bod ganddynt fynediad agored atynt drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles, a dysgu. Mae'r toiledau a chyfleusterau ymolchi ar agor ac ar gael i ddisgyblion drwy gydol y diwrnod ysgol. Maent yn addas ar gyfer yr ystod o ddefnyddwyr a ragwelir, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anghenion ychwanegol, gyda goleuadau a gosodion digonol. Cant eu glanhau yn ddyddiol yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol.

Toilet / Washroom facilities

Toilet facilities are provided throughout the school, including all three demountable buildings. The school recognises that well-maintained toilet facilities where learners feel comfortable and safe and have open access to throughout the school day, are essential for health, well-being, and learning. Toilets and washroom facilities are open and available to learners throughout the school day. They are suitable for the range of anticipated users, including learners with disabilities and additional needs, with adequate lighting, fixtures and fittings. Daily cleaning is provided through a Service Level Agreement with the local authority.

Cynllun Hygyrchedd yr Ysgol

Darperir dysgu o safon drwy addysgu a chefnogaeth o safon gan bawb yn yr ysgol. Mae ethos o ddeall anableddau disgyblion. Mae materion hygyrchedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gydag asiantaethau gwahanol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl o fewn cwricwlwm yr ysgol.

School Accessibility Plan

Good quality learning through good quality teaching and support is provided by all in the school. There is an ethos of understanding the disabilities of pupils. Accessibility issues are constantly reviewed and discussed with different agencies to meet the needs of disabled children and young people within the school's curriculum.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r ddeddf hon yn diddymu bron pob darn blaenorol o ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb sy'n bodoli ym Mhrydain. Dyletswydd yr ysgol yw hyrwyddo cydraddoldeb.

The Equality Act 2010

This act repeals practically all previous pieces of equality legislation that exists in Britain.

It is the duty of the School to promote equality.



Prosbectws yr Ysgol

Adolygwyd prosbectws yr ysgol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24, ynghyd â phrosbectws y Meithrin, ac maent wedi'u haddasu yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru. I gydymffurfio â rheoliadau statudol, mae copi o brosbectws yr ysgol wedi'i roi i rieni/ gwarcheidwaid disgyblion sy'n dechrau addysg amser llawn ym mis Medi 2024. Mae copïau o'r prosbectws ar gael o swyddfa'r ysgol neu gallwch ei lawrlwytho o wefan yr ysgol - www.yggpontybrein.com

School Prospectus

The school's prospectus for the academic year 2023/24 was reviewed, along with the school's nursery prospectus, and amended according to Welsh Government guidelines. To comply with statutory regulations, a copy of the school prospectus has been issued to parents/guardians of pupils commencing full time education as of September 2024. Copies of the prospectus are available from the school office or can be downloaded from the school website - www.yggpontybrein.com

Polisiâu a Dogfennau

Mae holl bolisiâu'r ysgol yn rhai cyfredol er bydd yr ysgol yn parhau i adolygu a diwygio'r rhain yn ystod y flwyddyn. Wrth iddynt gael eu hadolygu a'u cadarnhau gan y Llywodraethwyr, byddwn ar gael ar wefan yr ysgol – www.yggpontybrein.com

Policies and Documents

All school policies are current although the school will continue to review and amend these as and when required. As they are reviewed and ratified by the Governing body, they will be made available on the school's website - www.yggpontybrein.com

Canlyniadau a Pherfformiad

Does dim data cymharol bellach ar gael gan Lywodraeth Cymru yn yr un modd ag yr oedd yn hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae disgyblion yn cyflawni profion safonedig ac asesiadau diagnostig yn ogystal ag arweinwyr sy'n monitro llais y plentyn drwy holiaduron lles. Lle'n bosibl ac yn briodol, dadansoddir data a gafwyd o'r rhain.

Results and Performance

There is no longer any comparative data available from Welsh Government in the same way as there was historically. However, the school monitors pupil progress robustly and uses this effectively to plan next steps in learning. Pupils undertake standardised tests and diagnostic assessments as well as leaders monitoring the voice of the child through wellbeing questionnaires. Where possible and appropriate, data gained from these is analysed.